Ebol asyn i'r Brenin!

Diolchgarwch

Bore braf oedd y bore hwnnw. Tyrrai'r bobl i ddinas Jerwsalem. Pobl a phlant ymhob man a'r haul yn tywynnu. Hwn oedd y diwrnod roedd Iesu wedi penderfynu mynd i mewn i Jerwsalem.

Ychydig ddyddiau cyn hyn roedd wedi trefnu i'w ddisgyblion gael ebol asyn er mwyn iddo gael marchogaeth i mewn i ddinas Jerwsalem.

"Rydw i'n awyddus i fynd i mewn i Jerwsalem" meddai wrth ei ddisgyblion. "Os ewch chi i'r pentref nesaf bydd ebol asyn wedi ei rwymo wrth bolyn. Rydw i wedi gwneud trefniadau i chi ddod â'r ebol i mi. Os bydd rhywun yn gofyn dywedwch fod y Meistr ei angen." Aeth y disgyblion ar unwaith i chwilio am yr ebol asyn. A dyna lle roedd yr ebol wedi ei rwymo wrth bolyn.

"Tyrd ebol bychan" meddai un o'r disgyblion wrtho. "Rwyt ti'n dod efo ni heddiw." Dyma'r ebol yn dechrau nadu'n uchel. Cerddodd yn ufudd wrth ochr y disgyblion.

"Os gwn i beth mae'r Meistr yn mynd i'w wneud nesaf?" holodd un o'r disgyblion. "Y dyddiau diwethaf yma mae wedi bod ar fynd drwy'r amser. Rhai wythnosau'n ôl roeddem i fyny yna yn y gogledd, yn ardal Cesarea Philippi a dyma ni'n awr yn y ddinas fawr." Edrychodd y disgyblion ar ei gilydd yn amheus. "Dydy ni ddim yn gwybod beth sy'n digwydd y dyddiau yma."

Dyna oedd y sgwrs ar y ffordd i Jerwsalem. Wrth iddyn nhw gerdded i mewn i'r ddinas roedd Iesu'n disgwyl amdanyn nhw. "Dyma chi wedi cyrraedd. Diolch i chi am fynd i gyrchu'r ebol asyn. Un bach del ydio hefyd. Rydw i am eistedd ar ei gefn a mynd i mewn i Jerwsalem." Rhoddodd y disgyblion eu dillad ar gefn yr ebol. Eisteddodd Iesu ar ei gefn. Marchogodd i mewn i'r ddinas. Dechreuodd y bobl a'r plant weiddi. Roedd rhai ohonyn nhw'n torri canghennau o'r coed ac yn eu taenu

o dan draed yr ebol. Dechreuodd rhai o'r dyrfa weiddi gyda'i gilydd, "Hwre! mae'r Brenin yn dod, ac roedd eraill yn gweiddi adnod roedden nhw wedi eu dysgu pan oedden nhw'n blant bach. "Hosanna i Fab Dafydd." Roedd rhai o'r plant yn taflu blodau gwyn o dan draed yr ebol. Roedd y ddinas yn ferw gwyllt. Pobl a phlant yn gweiddi ac yn curo dwylo.
Yn Jerwsalem y diwrnod hwnnw roedd pobl ddieithr. Doedden nhw ddim yn gwybod pwy oedd y dyn ar gefn yr ebol asyn.
"Pwy yw hwn?" medden nhw.
"Pwy yw hwn, yn wir?" atebodd un o'r dyrfa. "Hwn yw'r proffwyd Iesu. Hwn yw ein Brenin ni."
"Ie, hwn yw ein brenin. Hwre! Hwre!" gwaeddai'r dorf.
"Brenin ar gefn ebol asyn?" gofynnodd rhywun, "ar gefn ceffyl mae brenin yn teithio."
"Na, mae'n brenin ni'n teithio ar gefn ebol asyn. Mae'n brenin ni'n wahanol i bob brenin arall yn y byd."
"Hwre i'r brenin" meddai'r bobl a'r plant gyda'i gilydd.

Diolch i Ti O Dduw am anfon Iesu i'n byd. Amen.

- Sut frenin oedd Iesu?
- Beth fyddech chi wedi'i wneud petaech chi yn Jerwsalem y diwrnod hwnnw?